**TGAU**

3000N20-1A

A21-3000N20-1A

**DYDD GWENER, 5 TACHWEDD 2021 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

**Uned 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

2 awr

## DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

3000N201A 01


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**

## Pam astudio pwnc neu gwrs *STEM?

**Bydd 1 o bob 5 swydd newydd sy'n cael eu creu erbyn 2022 yn swyddi STEM.**

### Erbyn 2022, bydd angen y canlynol ar Gymru...




Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith Cymru 2012–2022

**(*STEM = Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg)**

DARN DARLLEN 2


# Beth am ddilyn gyrfa fel peiriannydd?

## I fod yn beiriannydd gwerth ei halen dyma'r sgiliau bydd eu hangen arnat:

- Gallu technegol
- Diddordeb mewn mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg
- Creadigrwydd a dychymyg i ddatrys problemau



- Y gallu i weithio fel aelod o dîm
- Y gallu i hyrwyddo syniadau pobl eraill
- Sgiliau cyfathrebu da i egluro gwybodaeth gymhleth yn syml
- Bod yn barod i gymryd cyfrifoldeb ac arwain eraill



- Sgiliau trefnu da i gynllunio dy amser a rhoi trefn ar adnoddau
- Sgiliau TGCh da – rhaid defnyddio cyfrifiaduron mewn gwaith peirianneg

3000N201A
03

## DARN DARLLEN 3

### Hanes Tecwyn Roberts

**cymru** fyw

Hafan | Cylchgrawn | Gwleidyddiaeth | Gog-Orll | Gog-Ddwy | Canolbarth | De-Orll | De-Ddwy

***Mae'r cyflwynydd o Ynys Môn, Tudur Owen, wedi bod yn olrhain hanes Tecwyn Roberts mewn rhaglen arbennig ar S4C o'r enw 'Tudur Owen: O Fôn i'r Lleuad'. Cawsom gyfle i holi Tudur am ei brofiad wrth ymweld â NASA er mwyn dysgu mwy am hanes Tecwyn Roberts o Ynys Môn.***



**Oeddet ti'n gyfarwydd â hanes Tecwyn Roberts cyn mynd i NASA?**
Roeddwn i wedi clywed am Tecwyn Roberts ac roeddwn i'n gwybod ei fod o'n ddyn pwysig iawn yn NASA, ond doeddwn i ddim wedi deall pa mor bwysig roedd o. Mae'i gyfraniad gymaint mwy nag oeddwn i wedi ei ddychmygu.

**Beth yn union roedd yn ei wneud yn NASA?**
A dweud y gwir, fo oedd un o'r bobl fwyaf blaenllaw yn yr ymgyrch i anfon dyn i'r lleuad. Oni bai am ei waith fel un o brif beirianwyr NASA, ni fyddai'r byd wedi gweld y lluniau eiconig o Neil Armstrong yn cerdded ar y lleuad am y tro cyntaf yn 1969.

**Beth oedd ei hanes cyn iddo fynd i NASA?**
Roedd y dyn yn athrylith. Cafodd addysg gyffredin yn Ynys Môn yn Llanddaniel a'r ysgol ramadeg ym Miwmares cyn mynd i weithio mewn ffatri beirianneg. Mae'n rhaid eu bod nhw wedi sylwi ar ei allu achos mi wnaethon nhw gynnig ysgoloriaeth iddo. Wedyn fe symudodd i Ganada i weithio i gwmni technoleg newydd, gan ddefnyddio'i dalent er mwyn dringo'r ysgol ym maes peirianneg.

**Gefaist ti gyfle yn NASA i gyfarfod â rhai o gydweithwyr Tecwyn Roberts?**
Siaradon ni â Dr Chris Kraft, Cyfarwyddwr Awyr cyntaf NASA, sydd yn ei 90au erbyn hyn. Fo oedd un o'r bobl oedd yn gyfrifol am sefydlu NASA – a buon nhw'n chwilio am y bobl fwyaf galluog ledled y byd ac mae'n amlwg eu bod nhw wedi sylweddoli bod talent gan Tecwyn. Roedd hi'n gymaint o anrhydedd i gwrdd â rhai o gewri NASA. Maen nhw mor bwysig yn hanes dynoliaeth. Maen nhw'n hen erbyn hyn ac wedi stopio cynnal cyfweliadau ers blynyddoedd. Ond pan glywon nhw ein bod ni am wneud rhaglen ddogfen am Tecwyn Roberts roedden nhw wrth eu bodd. Roedd ganddyn nhw gymaint o feddwl ohono ac oherwydd hynny fe gytunon nhw i siarad.

**Wyt ti'n credu ei fod wedi cael digon o sylw yng Nghymru?**
Petai o wedi bod yn fardd neu'n awdur o fri, byddai wedi cael mwy o sylw yn fy marn i. Dydyn ni fel Cymry ddim yn rhoi digon o sylw i'n gwyddonwyr. Er hyn, dydw i ddim yn meddwl y byddai wedi hoffi'r sylw oherwydd roedd o'n ddyn diymhongar iawn. Dydy o ddim i'w weld mewn llawer o luniau a dim ond cip ohono sydd mewn ambell lun. Roedd o'n broffesiynol iawn a'i feddwl ar ei waith bob tro ac yn gweithio oriau hirfaith. Ond roedd anwyldeb yn perthyn iddo hefyd yn ogystal â balchder o'i wlad. Daeth i ymweld â Chymru, ei hen ysgol a'i ffrindiau yn yr 1980au cyn iddo farw yn weddol ifanc yn 63 oed. Dylai mwy o bobl wybod am ei hanes oherwydd mae o'n ysbrydoledig. Roedd ganddo allu a dawn naturiol a dangosodd i ni beth sy'n bosib drwy waith caled.

# TUDALEN WAG

**DARN DARLLEN 4**




## Nofio gyda siarcod rhithiol!



Am y tro cyntaf erioed rydw i wedi cael profiad anhygoel na alla i ei ddisgrifio mewn geiriau! Rydw i wedi bod yn 'nofio' gyda siarc, dolffin a chrwban y môr heb hyd yn oed orfod mentro i mewn i'r môr! Mae'r diolch am hyn i Llŷr ap Cenydd, sy'n gweithio ym Mhrifysgol Bangor.

Fe sydd wedi creu'r rhaglen o'r enw *Ocean Rift*, y rhaglen gyntaf yn y Gymraeg ar gyfer unrhyw gogls realiti rhithwir sy'n cynnig profiad cwbl unigryw i'r defnyddiwr.

Dyma raglen newydd sbon er mwyn gallu dysgu am y môr a'r byd o'n cwmpas. Doedd dim rhaid i mi fynd i chwilio am lyfr nac edrych ar raglen deledu er mwyn dysgu am y creaduriaid sy'n byw yn ein moroedd. Cefais ddysgu am y byd newydd hwn wrth wisgo'r gogls rhithwir yn fy ystafell wely!




Pan fyddwch chi'n nofio gydag anifail fel dolffin neu siarc bydd yna banel yn y môr yn rhoi gwybodaeth am yr anifail i chi. Mae yna dros 50 o baneli gwybodaeth am greaduriaid y môr ar gael i chi yn y rhaglen, ac maen nhw i gyd ar gael yn y Gymraeg am y tro cyntaf erioed! Dysgais lwyth o wybodaeth newydd ond yr hyn a wnaeth fy synnu i fwyaf oedd yr argraff a gefais o faint a mawredd y morfil glas wrth nofio ochr yn ochr ag ef! Dyma'r rhaglen fwyaf yn y byd er mwyn dysgu am y môr.

Ym myd *Ocean Rift*, sef 'Parc Saffari Tanddwr', cefais y cyfle i fentro o dan y tonnau i'r byd llachar. Roeddwn wrth fy modd yn cael nofio gyda gwahanol greaduriaid y môr o'r dolffiniaid i'r nadredd môr yn ogystal ag ymlusgiaid o'r cyfnod cynhanesyddol sydd wedi hen ddiflannu erbyn hyn! Mae'r creaduriaid yn ymddwyn fel rhai go iawn oherwydd eu bod nhw wedi eu hanimeiddio gan system deallusrwydd artiffisial blaengar iawn a gafodd ei datblygu yn unswydd ar gyfer y rhaglen. Fy hoff beth i am y rhaglen hon yw fy mod yn gallu dewis o gyfres o gynefinoedd, a hefyd symud rhyngddynt, gan ddewis o blith llongddrylliad, lagŵn, y cefnfor dwfn a hyd yn oed Atlantis.
Anhygoel!

Ewch i brynu pâr o gogls rhithwir a lawrlwythwch y rhaglen er mwyn profi'r byd newydd a chyffrous hwn!

**Josh Jones, 16 oed, Llanymddyfri**

**DARN DARLLEN 5**

**Profi'r Tywyllwch Cymru**

**ENGLISH** CYMRAEG | **I FUSNESAU**

Amdanom Ni | Syllu ar y Sêr | Gweithgareddau | Eryri | Arfordir Penfro | Bannau Brycheiniog

# Dewch i ddysgu am y gofod a'r sêr!



Dewch o hyd i wersyll sydd wedi'i guddio yng nghefn gwlad yn ddigon pell oddi wrth oleuadau llachar y ddinas. Cofleidiwch ac anweswch ryfeddod y tywyllwch a gwyliwch y byd yn troi. Mae rhai meysydd gwersylla gwych yn gweithio'n galed i leihau llygredd golau a chynnig cyfleoedd personol ac unigryw er mwyn i bobl gael y profiad o weld yr awyr a'r sêr yn y nos. Er mwyn cael golygfeydd ysblennydd o'r Llwybr Llaethog ac er mwyn gweld hyfrydwch nefolaidd eraill, Cymru yw'r lle delfrydol. Mae'r tri Pharc Cenedlaethol yn cael eu cydnabod gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol am safon eu hawyr dywyll arbennig a'u sêr disglair. Mae noson o dan y sêr, gweld yr haul yn machlud a'r wawr yn torri yn brofiad anhygoel sy'n agored i bawb ond dim ond ychydig sy'n cael y profiad.

Mewn rhai meysydd gwersylla cewch help i ddechrau syllu ar y sêr drwy ddefnyddio siartiau sêr ac ysbienddrych. Mae llawer o wersylloedd yn gyfeillgar tuag at yr awyr dywyll ac mae ganddynt oleuadau sy'n cael eu diffodd yn y nos. Diffoddwch eich technoleg a chymerwch eich amser i ymdoddi i'ch amgylchedd naturiol, y synau, yr arogleuon a'r golygfeydd sy'n cael eu datgelu gan y tywyllwch. Mae gwersylla o dan y sêr yn amser gwych i ddod i adnabod eich ffrindiau a'ch teulu.

Rydym yn tueddu i anghofio pa mor hardd yw hi allan yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw beth mewn gwirionedd sy'n well na chlywed y byd yn deffro o'ch cwmpas ar ôl noson o gysgu o dan y sêr. O'r awyr serog i'r glaswellt meddal ac arogl gwair gwlithog yn yr awyr oer, byddwch yn ailddarganfod sut mae'r pethau gorau mewn bywyd mewn gwirionedd yn rhad ac am ddim. Mae rhywbeth cyntefig a chyffrous am wersylla. Mae cysgu lle gallwch glywed synau'r nos o'ch amgylch a chorws y wawr yn eich deffro yn brofiad heb ei ail ac yn fodd o'ch cysylltu â byd natur. Cyfunwch hyn â syllu ar y sêr ac mae ein cyswllt dynol â'r bydysawd cyfan yn cael ei ddihuno.

Nosweithiau digwmwl clir yw'r rhai gorau ar gyfer syllu ar y sêr. Fodd bynnag, peidiwch â gadael i ychydig o gymylau eich siomi a defnyddiwch yr adegau hyn i ddysgu am y sêr neu rannu storïau am y chwedlau a'r arwyr sy'n gysylltiedig ag awyr y nos.

TUDALEN WAG